
Penodi Cyfarwyddwr Y Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth





Rhagair gan yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor, Prifysgol Aberystwyth.

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb mewn ymgeisio am swydd Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Adran o fewn i Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn Aberystwyth yw Canolfan y Celfyddydau. Mae ganddi enw da yn genedlaethol am fod yn ganolfan flaenllaw i'r celfyddydau, ac fe saif wrth galon campws Penglais y Brifysgol.

Oherwydd ei hadnoddau rhagorol a'i rhaglen gelfyddydol eang, mae'r Ganolfan yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd eithriadol profiad myfyrwyr yma yn Aberystwyth, ac mae'n ganolbwynt cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hollbwysig i'r rhanbarth. Mae ganddi hefyd y potensial i'w hymgorffori ymhellach ym mywyd academiaidd y brifysgol ac, mewn partneriaeth â myfyrwyr a staff o aml ddisgyblaethau, i ddatblygu cyrsiau unigryw a dulliau academiaidd a fydd yn ehangu ein gwybodaeth a'n hapêl i fyfyrwyr, a chynyddu enw da'r Brifysgol fel un o sefydliadau ymchwil mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig.

Mae Canolfan y Celfyddydau'n darparu rhaglen sy'n meithrin cyswllt â'i chymunedau a'u cefnogi yn eu holl amrywiaeth. Mae'r Ganolfan yn ymrwymedig i egwyddorion 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' Llywodraeth Cymru yn ei huchelgais i wella

lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru, ac rydym yn adlewyrchu egwyddorion allweddol cynllun corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru, Er Lles Pawb, ac yn croesawu'r contract diwylliannol a'i egwyddorion, sef amrywiaeth, cynwysoldeb a chydarddoldeb.

Mae hwn yn gyfle gwych i arweinydd o ysbrydoliaeth a menter yn y celfyddydau i ailddiffinio gweledigaeth a chenhadaeth y Ganolfan ar ôl y pandemig. Bydd y Cyfarwyddwr newydd yn flaengar, yn greadigol ac yn bragmatig; fe fydd yn ymroddedig i gyflawni cylch gwaith a gwireddu potensial canolfan gelfyddydol sydd wedi'i gwreiddio yn niwylliant Cymru ac yn ehangu'r diwylliant hwnnw. Bydd ganddo/ganddi'r gallu i lunio menter artistig uchelgeisiol a, thrwy reolaeth ariannol bwrsasol, i ddatblygu canolfan gynaliadwy a gwydn er budd ein holl randdeiliaid: Prifysgol Aberystwyth, ei myfyrwyr a'i staff, y gymuned ehangach o weithwyr celf a chrefft, a busnesau creadigol a chyfryngau, ac yn hanfodol, pobl Ceredigion, Cymru'n ehangach a thu hwnt.

Os oes gennych y weledigaeth, y profiad a'r nodweddion personol yr ydym yn chwilio amdanynt, byddai gennym ddiddordeb mawr i glywed oddi wrthyh.

Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor

Gwybodaeth am Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Gyda'i hadnoddau pwrpasol rhagorol, a rhaglen gelfyddydol amlddisgyblaethol helaeth ac amrywiol, sy'n cynnwys amserlen lawn o gyrsiau a dosbarthiadau, mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn ganolfan arobryn a hi yw'r Ganolfan fwyaf ei maint a'r mwyaf deinamig yng Nghymru i'r celfyddydau. Mae ei gwreiddiau'n mynd nôl i'r 1970au pan adeiladodd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, fel yr oedd ar y pryd, Ganolfan i fod yn adnodd gyda'r uchelgais i wasanaethu nid yn unig y Coleg, ond hefyd y dref a'r siroedd cyfagos.

Heddiw, mae'r Ganolfan yn rhan annatod o'r Brifysgol, ac yn creu cyswllt pwysig â'r gymuned leol a rhanbarthol, gan ddenu dros 750,000 o ymwelwyr yn flynyddol. Gyda chefnogaeth Grŵp Ymgynghorol arbenigol ac un o gleientiaid Portffolio Celfyddydol Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r Ganolfan yn gwneud cyfraniad hanfodol ac egniol i fywyd artistig a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'n chwarae rhan bwysig yn hyrwyddo'r Gymru aml-ddiwylliannol.

Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan ar agor saith diwrnod yr wythnos trwy gydol y flwyddyn, ac yn cynnig rhaglen o theatr, dawns, cerddoriaeth, arddangosfeydd, ffilm, llenyddiaeth, a chomedi, yn ogystal â dosbarthiadau a chyrsiau amrywiol yn y celfyddydau gweledol ac mewn perfformio. Dros dymor prysur yr Haf, mae'r Ganolfan yn cynnal gwyliau celfyddydol a cherddorol, ac yn

cyflwyno cynhyrchiad theatr ar raddfa fawr, sy'n para 5 wythnos, a'r bwriad yw apelio at gynulleidfaeodd craidd Canolbarth Cymru yn ogystal â marchnad fawr o ymwelwyr a thwristiaid.

Mae'r Ganolfan yn ymrwymedig i wasanaethu tair etholaeth allweddol - artistiaid unigol a busnesau creadigol, gan ganolbwyntio ar ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg; y Brifysgol, ei phoblogaeth o fyfyrwyr a staff academiaidd ac atodol; a chymuned leol Ceredigion. Mae ei rhaglen a'i hadnoddau wedi esblygu i allu darparu rhaglen artistig o safon uchel ochr yn ochr â chyfleoedd eang i gymryd rhan. Ar yr un pryd, mae ynddi fannau sy'n hyblyg o ran eu defnydd, ar gyfer cynnal achlysuron preifat a'u llogi i drydydd parti, er mwyn creu incwm masnachol, sy'n agwedd hanfodol ar fodel busnes y Ganolfan.





Cyfleusterau y Ganolfan y Celfyddydau

Mae'r adnoddau'n cynnwys y canlynol:

- **Neuadd Gyngerdd, Y Neuadd Fawr (lle i 1250):**
lle hyblyg, a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth eang o gerddoriaeth (pob genre), cynyrchiadau theatr, adloniant ysgafn, seremonïau graddio, sioeau masnach, cynadleddau, ac i'w logi'n breifat.
- **Theatr, Theatr y Werin (lle i 312):**
cyflwynir cymysgedd o gynyrchiadau proffesiynol a chymunedol, yn ogystal â chynyrchiadau mewnol, rhai ohonynt yn mynd ar daith.
- **Stiwdio (lle i 60-80):**
lle agos-atoch ar gyfer gwaith newydd ac arbrolfol, darlenniadau llenyddiaeth a doniau newydd.
- **Y Sinema:**
mae ganddi'r technolegau diweddaraf, mae'n dangos o leiaf dwy ffilm bob dydd, gan anelu at wahanol etholaethau a grwpiau cymunedol; mae ei rhaglen amrywiol yn cynnwys ffrydio cynyrchiadau byw o sefydliadau amlwg yn y celfyddydau perfformio yn fyd-eang, gan gynnwys y Met yn Efrog Newdd, a'r National Theatre yn Llundain.
- **Amrywiaeth o leoedd arddangos:**
gan gynnwys Oriel 1, y brif oriel arddangos, ar gyfer celf gyfoes eithriadol - darluniau, cerfluniau, gosodiadau, a chyfryngau newydd, a gwaith digidol; Oriel 2, ar gyfer gwaith print a ffotograffiaeth; Oriel y Caffi, ar gyfer gwaith ar raddfa lai; yr Oriel Gerameg, sy'n cyflwyno'r gorau mewn cerameg gyfoes a darnau o gasgliad parhaol eithriadol y Brifysgol o gerameg.
- **Gofodau Creadigol:**
unedau unigol sy'n rhoi lle i weithwyr a busnesau celf a chrefft.
- **Lletygarwch a Manwerthu:**
mae yno dri caffi-bar a siop Crefft a Dylunio, sydd hefyd yn cael ei defnyddio i arddangos.

Mae mwy o wybodaeth am adnoddau a rhaglen Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth i'w gweld yma: [Amdanom Ni | Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth](#) ac am y Brifysgol yma: www.aber.ac.uk



Cynllun Strategol Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth (2022 - 2025)

Mae Canolfan y Celfyddydau yn chwarae rôl arweiniol ym mywyd diwylliannol Cymreig, er budd y rhanbarth, Cymru a thu hwnt. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn gweithio i gyflawni amcanion strategol hanfodol y Ganolfan, Prifysgol Aberystwyth, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir Ceredigion trwy barhau i ddarparu rhagoriaeth trwy'r amcanion strategol canlynol:

Arloesi ac Ysbrydoli

I arloesi ac ysbrydoli trwy greu a chyflwyno rhaglen amrywiol o waith cymunedol a chyfranogol proffesiynol o safon uchel ar gyfer pobl o bob oedran, gallu a chefnidir.

Datblygiad Proffesiynol

I ddarparu amgylchedd creadigol, ysbrydoledig a chefnogol ar gyfer artistiaid, perfformwyr ac ymarferwyr llawrydd.

Ymrwymiad Cymunedol

Trwy un o raglenni cymunedol mwyaf cynhwysfawr ac uchelgeisiol y DU, byddwn yn estyn allan ac yn cael effaith bositif ar ein cymunedau trwy gyfrangaeth weithredol yn y celfyddydau; yn ymestyn ac yn cryfhau ymrwymiad cymunedol trwy raglen holl gynhwysol yn yr iaith Saesneg a'r Gymraeg.

Partneriaethau

I arwain ar ddatblygu partneriaethau creadigol o fewn Cymru, y DU ac yn rhyngwladol er mwyn hyrwyddo creadigaeth a chyfnewid prosiectau a syniadau dyfeisgar.

Amgylchedd Celfyddydol o Safon Uchel

I greu'r amgylchedd corfforol gorau posibl ar gyfer creu, cyflwyno, cymryd rhan a mwynhau'r celfyddydau, un sydd o fewn cyrraedd ac sy'n gynaliadwy, yng nghanol ein cymunedau.

Gwytnwch

I wireddu rhaglen o weithgaredd masnachol sydd wedi'i hintegreiddio gyda'n gwaith artistig ac sy'n cydfynd â'n gwerthoedd hanfodol sef tarddiad, cynaliadwyedd a ffocws ar bobl. I gynnal ein statws fel cleient portffolio allweddol Cyngor Celfyddydau Cymru, ac i fod yn llwyddiannus wrth geisio am nawdd, yn galluogi prosiectau strategol allweddol i gael eu gwireddu.

Y Swydd

Cyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Bydd y Cyfarwyddwr yn gyfrifol am ddatblygu'r weledigaeth artistig, y strategaeth a'r cynllun busnes ar gyfer Canolfan y Celfyddydau, gan oruchwylio'r gwaith o gyflwyno rhaglen artistig safonol, berthnasol ac uchelgeisiol a chreu canolfan sy'n fenter fasnachol lwyddiannus. Bydd yn cynnal perthynas gref a chadarnhaol â Phrifysgol Aberystwyth a chynrychioli Canolfan y Celfyddydau yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gan ddenu cefnogaeth rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn un o adrannau Prifysgol Aberystwyth ac mae Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau yn atebol i Ddirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol sy'n atebol i'r Is-Ganghellor.

Mae'r Cyfarwyddwr yn rheoli uwch dîm sy'n gyfrifol am weithgareddau artistig, a gweithgareddau cyswllt a masnachol.

Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Arwain a Rheoli

- Datblygu gweledigaeth a chenhadaeth Canolfan y Celfyddydau, yn unol â'i safle o fewn i Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- Sefydlu gweledigaeth artistig a chynllun strategol Canolfan y Celfyddydau, gan nodi dangosyddion perfformiad allweddol uchelgeisiol ar draws pob agwedd ar y gwaith.
- Rhoi arweiniad ysbrydoledig ac ymdeimlad clir o gyfeiriad i'r tîm rheoli, gan sicrhau bod y rhaglen yn cyd-fynd â gweledigaeth ac uchelgais ar draws yr holl ffurfiau a gweithgareddau celfyddydol.
- Defnyddio dull effeithiol a llawn dychymyg o farchnata, rheoli brand, a strategaethau datblygu gwerthiant a chynulleidfaoedd.
- Sicrhau bod polisi'r Brifysgol o safbwynt y Gymraeg a diwylliant Cymru yn llywio rhaglenni ar bob lefel.
- Datblygu strategaeth uchelgeisiol i gefnogi a meithrin artistiaid a chwmnïau o Gymru yn ogystal â rhai rhyngwladol, gan barchu ein hamgylchfyd dwyieithog ac amlieithog.
- Datblygu strategaeth ddigidol gynhwysfawr, sy'n cwmpasu holl weithgareddau'r Ganolfan, ac ymrwymiad i wella'n barhaus.
- Gweld cyfleoedd ar gyfer partneriaethau newydd sy'n canolbwyntio ar ennyn diddordeb myfyrwyr, ymarfer celf arloesol, a chreu refeniw.
- Arwain wrth ddarparu profiad rhagorol a chynhwysol i gwsmeriaid, gan gwmpasu pob cynulleidfa a holl ymwelwyr y Ganolfan.
- Sicrhau ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiant, hygyrchedd a chynaliadwyedd amgylcheddol ar draws holl weithgareddau'r sefydliad.
- Meithrin ac arwain diwylliant tîm ledled y Ganolfan sy'n gynhwysol, yn gyfrifol, ac yn parchu'i gilydd.
- Goruchwylio trefn gyson o reoli perfformiad staff, gan nodi anghenion hyfforddi a datblygu.

Cysylltiadau Strategol a Chynrychiolaeth

- Meithrin perthynas ragorol ac effeithiol â rhanddeiliaid a chyllidwyr allweddol, gan gynnwys y Brifysgol, Cyngor Celfyddydau Cymru, a phartneriaid eraill lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Datblygu a hybu enw da'r Ganolfan am hyrwyddo cyswllt â'r cyhoedd a'u denu i fanteisio ar ei hadnoddau, gan ymestyn cyrhaeddiad y Ganolfan wrth ddenu cynulleidfaoedd a meithrin partneriaethau yng nghymunedau'r Canolbarth a Chymru yn ehangach.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau buddiol â hyrwyddwyr pob math o gelf yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig, gan gynnwys cynhyrchwyr masnachol blaenllaw, partneriaid sy'n cyd-gynhyrchu, consortia theatr a dawns, a chwmnïau sy'n ymweld, wrth hyrwyddo llwyddiant artistig ac ariannol y Ganolfan.
- Datblygu rhwydweithiau rhyngwladol a chydweithrediadau dwyochrog, gan hyrwyddo'r Ganolfan yn fyd-eang fel y gall gyflwyno gwaith rhyngwladol o'r radd flaenaf.
- Cadw cyswllt gweithredol a chyson â Bwrdd Ymgynghorol Canolfan y Celfyddydau a chyrrff allanol perthnasol yn y Celfyddydau.
- Cynrychioli'r sefydliad yn gyhoeddus a mynd i gynadleddau, seminarau, a fforymau diwydiannol eraill fel y bo'n briodol.

Ariannol a Gweithredol

- Datblygu a goruchwyllo model busnes cadarn i sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor byr a hirdymor Canolfan y Celfyddydau.
- Cyflwyno cynlluniau busnes a chyllidebau i'r Brifysgol yn flynyddol a bob 3-5 mlynedd yn rhan o'r cylch cynllunio.
- Arwain strategaeth uchelgeisiol i godi arian o ffynonellau statudol ac elusennol.
- Canfod cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r potensial i gynhyrchu incwm masnachol ar draws holl gyfleusterau Canolfan y Celfyddydau, gyda pherthnasedd penodol i ddatblygiad a defnydd y Gofodau Creadigol.
- Goruchwyllo diwylliant o reolaeth llym ar y gyllideb ac o atebolrwydd gan ddeiliaid y gyllideb.
- Gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, sefydlu strategaeth gytûn ac ymarferol o adnewyddu a datblygu cyfalaf ar gyfer Canolfan y Celfyddydau.
- Goruchwyllo gweithredu dull cadarn o reoli risg, sicrhau cydymffurfio â phrosesau'r Brifysgol a gofynion deddfwriaethol, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles ymwelwyr â Chanolfan y Celfyddydau.
- Sicrhau y cydymffurfir â gofynion diogelwch yn achos staff sy'n cymryd rhan yn unrhyw weithgarwch yn y Ganolfan neu ar ei rhan.



Manyleb yr Unigolyn

Profiad

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol profiad yn y canlynol:

- Arwain a rheoli tîm ar lefel uwch mewn sefydliad celfyddydol neu sector cysylltiedig.
- Rheoli cysylltiadau yn llwyddiannus o fewn i rwydwaith cymhleth o randdeiliaid dylanwadol.
- Rheoli newid sefydliadol ar lefel uwch.
- Datblygu cyllidebau, goruchwyliaeth a rheolaeth ariannol.
- Cynhyrchu lefelau sylweddol o incwm o sawl ffynhonnell.
- Datblygu a chynnal partneriaethau effeithiol ag ystod eang o sefydliadau ac unigolion.

Sgiliau

- Gallu i lunio gweledigaeth artistig ysbrydoledig ac uchelgeisiol ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.
- Gallu i arwain ac ysbrydoli eraill i ymroi i newidiadau gydag agwedd gynhyrchiol

- Gallu i gynnal cyswllt cynhyrchiol a phriodol â rhanddeiliaid allweddol.
- Dawn ardderchog wrth gyd-drafod.
- Gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac yn hyblyg wrth gyflwyno cenhadaeth Canolfan y Celfyddydau i gynulleidfaoedd amrywiol, buddiolwyr, rhanddeiliaid, a'r cyfryngau
- Cymhwyster lefel gradd neu dystiolaeth o sgiliau lefel gradd.

Gwybodaeth

- Cysylltiadau cryf a dylanwadol â sefydliadau a rhwydweithiau celfyddydol eraill.
- Dealltwriaeth graff am y Deyrnas Unedig a chyd-destun rhyngwladol y celfyddydau.
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad cadarn o ddiwylliant Cymru a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg i Gymru a'i phobl.

Y Gymraeg

- Cymraeg Llafar (siarad) Lefel B2
- Cymraeg Ysgrifenedig Lefel B2.

Crynodeb o'r Telerau Cyflogaeth

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith lle mae'r staff yn cael eu gweld yn adnodd gwerthfawr ac yn cael eu hysbrydoli yn eu gwaith. I gefnogi'r ymrwymiad hwnnw, mae'r Brifysgol yn darparu ystod eang o fuddiannau i'w gweithwyr ac yn adolygu'r cynnig hwn yn rheolaidd.

Cyflog

c.£75,000

Pensiwn

Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â'r USS, sy'n Gynllun Pensiwn hael.

Gwyliau Blynnyddol

27 diwrnod, ynghyd â 4 Diwrnod Cau ac 8 Gŵyl Banc Statudol.

Pecyn adleoli

Mae gennym becyn adleoli hyblyg, sy'n cynnig rhywfaint o gymorth ariannol.

Gwneud Cais

Penodir Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth gan Banel Penodi dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure. Cynhelir proses chwilio gan AEM International a fydd yn cynorthwyo'r Panel Penodi i ganfod y maes ehangaf posibl o ymgeiswyr cymwys a'i gynorthwyo yn ei asesiad.

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn annog yn benodol ddarpar ymgeiswyr o grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cais, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang a/neu sydd â nodweddion a ddiogelir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gan gynnwys hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, a chrefydd a chred.

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr cais, yn dangos sut mae eich doniau a'ch profiad yn cyd-fynd â gofynion y swydd a manyleb yr unigolyn, at ein Hymgyngorydd Recriwtio, Heather Newill, Cyfarwyddwr AEM International, trwy e-bostio hnewill@aeminternational.co.uk.

Ni ddylai eich llythyr cais fod yn hirach na thair ochr A4. Cydnabyddir pob cais.

Y dyddiad cau i wneud cais yw dydd Llun **12 Rhagfyr 2022**.

Cynhelir cyfweiliadau yn Aberystwyth ddiwedd mis Ionawr 2023.

Gofynnwn hefyd ichi lenwi ein ffurflen fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn ein cynorthwyo i asesu'r drefn recriwtio hon. Ni fydd y Panel Penodi yn gweld y ffurflenni a gyflwynir.

Os oes arnoch angen unrhyw newidiadau i'r drefn ymgeisio neu os hoffech gyflwyno'ch cais ar ffurf fideo neu mewn fformat arall, byddem yn hapus i'ch cynorthwyo a darparu ar gyfer hyn.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag Uwch Ymgynghorydd Rhyngwladol AEM, Helen Sprott, hsprott@aeminternational.co.uk.

Am y Brifysgol



Ein Hanes


Fel y Coleg Prifysgol cyntaf yng Nghymru, mae gan Aberystwyth draddodiad hir a nodedig ym maes addysgu ac ymchwil, ac mae sefydlu'r brifysgol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn un o'r llwyddiannau mawr yn hanes cyflawni rhywbeth arloesol yn y Gymru fodern.

Dan arweiniad Hugh Owen, un o Gymry Llundain, aeth carfan fechan selog ati o'r 1850au ymlaen i godi digon o arian, trwy gyfraniadau cyhoeddus a phreifat, i sefydlu coleg o statws prifysgol yng Nghymru. Prosiect hynod uchelgeisiol oedd hwn ac ym 1872 agorodd y Brifysgol ei drysau, gyda llond dwrn o ddarlithwyr a dim ond 26 myfyriwr mewn adeilad a oedd, ar yr adeg honno, yn westy heb gael ei orffen ar lan y môr (yr 'Hen Goleg' erbyn heddiw).

Yn ystod y degawd cyntaf, wynebodd y Brifysgol lawer her a allasai fod wedi dod â hi i ben. Trwy haelioni rhai noddwyr unigol a thrwy ymgyrchoedd yn galw ar werin Cymru am gymorth, llwyddwyd i gadw drysau'r Brifysgol ar agor ac, yn bwysicach oll efallai, fe enillodd y coleg le pwysig ym meddyliau a chalonnau'r Cymry. Testun balchder mawr yw'r ffaith bod y Brifysgol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i addysg menywod, gan ei bod hi ymhlith y sefydliadau cyntaf i dderbyn merched yn fyfyrwyr.

Ers y dyddiau cynnar hynny, aeth Prifysgol Aberystwyth o nerth i nerth ac mae ganddi bellach dros 6,500 o fyfyrwyr a 2,000 o staff. Wrth i'r sefydliad dyfu, symudodd y prif gampws o'r Hen Goleg ar lan y môr i safle ar Riw Penglais. Mae'r safle hwn, gyda'i diroedd a dirluniwyd yn gelfydd, yn mwynhau golygfeydd godidog dros dref Aberystwyth ac arfordir Bae Ceredigion. Mae ar y campws adeiladau newydd, gan gynnwys canolfannau mawr i'r celfyddydau a'r gwyddorau, neuaddau preswyl, Canolfan Gelfyddydau ardderchog ac adnoddau chwaraeon o'r safon uchaf.

Mae'r Hen Goleg yn dal i fod yn rhan hanfodol o'r Brifysgol ac mae cynlluniau cyffrous yn mynd rhagddynt i adnewyddu'r adeilad eiconig, sydd yn drysor o'n treftadaeth, gan ei fod ymhlith yr enghreifftiau pwysicaf o bensaerniaeth yr adfywiad Gothig ym Mhrydain. Ein nod yw creu canolfan ddiwylliant a threftadaeth fywiog, a fydd yn gyrchfan i bobl leol, yn ogystal ag ymwelwyr o bob cwr, i ddefnyddio a mwynhau arddangosfeydd, manau rhannu dysg a gwybodaeth, a chanolfan a fydd yn sbardun i gychwyn busnesau creadigol.



Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth

Mae ein Cynllun Strategol 2018-2023 wedi'i ffurfio gan ein staff a'n myfyrwyr yn y Brifysgol; mae'n uchelgeisiol ond yn realistig, gan bwysleisio ein hymroddiad i addysg ardderchog, profiad y myfyrwyr, ac ymchwil sy'n creu effaith.

1. Ymchwil ac arloesi ag effaith

Fel sefydliad dwyieithog a arweinir gan ymchwil, byddwn yn cefnogi ac yn meithrin ymchwilwyr i gyflawni gwaith ymchwil fydd ag effaith ac o safon sy'n arwain y byd. Bydd ein gwaith ymchwil yn sicrhau canlyniadau fydd yn arwain at arloesi mewn diwydiant, polisi cyhoeddus ac yn datblygu'r economi leol.

2. Addysg a phrofiad myfyrwyr

Grymuso myfyrwyr i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol mewn cymuned ddwyieithog gefnogol, cynhwysol a chreadigol er mwyn gwireddu eu potensial. Bydd myfyrwyr yn graddio yn feddylwyr beirniadol a rhydd annibynnol â sgiliau sy'n benodol i'w disgyblaeth ac yn drosglwyddadwy. Bydd myfyrwyr wedi cael profiad o'n gwaith ymchwil rhagorol drwy brosiectau a dysgu a arweinir gan ymchwil.

3. Ein lle mewn Cymdeithas

Rydym yn Brifysgol ddwyieithog sydd wedi gwreiddio'n ddwfn yng Nghymru ac sy'n agored i'r byd. Rydym bob amser wedi gwneud cyfraniad sylweddol i Gymru a thu hwnt, ac wedi bod o fudd i'n cymunedau a'r gymdeithas yn gyffredinol drwy effaith ein gwaith ymchwil, addysg a gweithgareddau amrywiol ein staff, myfyrwyr a chyn-

fyfyrwyr. Rydym yn hyfforddi ein graddedigion yn academiaidd ac yn plannu gwerthoedd dinasyddiaeth fyd-eang a chenedlaethol ynddynt. Rydym yn deall ein cyfrifoldeb, ac yn wir, ein hatebolrwydd i gymdeithas. Dymunwn fod yn hygyrch ac yn bennaf oll, rhaid inni fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth. Byddwn yn cryfhau ac yn cyfathrebu'n well yr agwedd hon ar ein gwaith.

4. Ymgysylltu rhyngwladol

Mae Aberystwyth yn Brifysgol flaenllaw yng Nghymru a chanddi enw da rhagorol yn rhyngwladol. Byddwn yn lleoliad rhyngwladol o ddewis i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio yn ein hamgylchedd unigryw. Anogir ein holl fyfyrwyr i gael profiad rhyngwladol. Byddwn yn bartner dymunol ar gyfer myfyrwyr a staff rhyngwladol.

5. Iaith a Diwylliant Cymru

Mae gan Brifysgol Aberystwyth hanes cryf a balch o ddarparu addysg ac ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â hyrwyddo gwell dealltwriaeth o anghenion economaidd-gymdeithasol Cymru. Mae gan staff, myfyrwyr ac ymwelwyr gyfleoedd i brofi ieithoedd a diwylliant Cymru.





Byw a Gweithio yn Aberystwyth

Mae Aberystwyth yn dref farchnad hanesyddol, a chanddi olygfeydd godidog o Fae Ceredigion. Fe saif ar arfordir gorllewin Cymru, ac mae'n llawer mwy na dim ond tref lan-môr. Yn ogystal â Chanolfan y Celfyddydau, mae Aberystwyth yn gartref i nifer o sefydliadau o bwysigrwydd cenedlaethol, y Brifysgol ei hun, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, a swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Crynodeb

Mae glân y môr Aberystwyth yn gyrchfan i ymwelwyr a'r trigolion lleol fel ei gilydd. Mae'r Prom llydan yn lle poblogaidd i gerdded, rhedeg, sglefrio a beicio - neu ddim ond ymlacio ger y lli. Ewch am dro ar hyd 2,000 metr y Prom - o un pen i'r llall - ac fe welwch amryw o brif olygfeydd a safleoedd Aberystwyth. O'r harbwr a'r marina yn y de i'r Graig-Lais yn y gogledd, cewch fwynhau awyr iach awelon y môr a golygfeydd panoramig ar Fae Ceredigion. Os byddwch yn lwcus, efallai y cewch gip ar ddolffiniaid a llamhidyddion.

Tai ac Ysgolion

I deuluoedd, mae Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth o ysgolion cynradd a dwy ysgol uwchradd, ac mae mwy o ysgolion yn y bröydd cyfagos yng Ngheredigion. Mae amrywiaeth o fathau o eiddo ar gael, o'r dref a'i maestrefi, i gartrefi ar lan y môr ac yng nghefn gwlad.

Diwylliant ac Adloniant

Ar ben yr arlwy helaeth a safonol a gynigir yng Nghanolfan y Celfyddydau, mae gan Aberystwyth yr holl gyfleusterau y disgwyliech eu gweld mewn tref ffyniannus - dewis eang o siopau, marchnad ffermwyr, bwytai sydd wedi ennill gwobrau, bywyd nos bywiog a diwylliant caffi. Dyma dref sy'n estyn croeso, ac yn cynnig dewis eang o ddigwyddiadau diwylliannol a gweithgareddau cymdeithasol. Mae'n gymuned ddwyieithog fywiog lle mae'r Gymraeg i'w chlywed bob dydd, yn ogystal â'r Saesneg ac ieithoedd eraill.

Cewch fwy o wybodaeth am Aberystwyth ar: <https://visitaberystwyth.com>

